Garfield Weston
FOUNDATION

# Canllawiau Ymgeisio



Garfield Weston
FOUNDATION


Ynglŷn â Garfield Weston Foundation

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Pwy rydym yn eu cefnogi

Beth rydym yn ei ariannu

Beth nad ydym yn ei ariannu

Y broses ymgeisio

- Gair i gall am gais gwych
- Ysgrifennu'ch cais
- Sut i gyflwyno'ch cais
- Beth fydd yn digwydd nesaf?

Siarter Weston


**Defnyddio'r ddogfen hon**
I fynd yn syth at adran benodol cliciwch ar y teitl yn y rhestr uchod.

www.garfieldweston.org

# Ynglŷn â Garfield Weston Foundation

Ymddiriedolaeth deuluol sy'n rhoi grantiau yw sefydliad Garfield Weston Foundation sydd wedi bod yn cefnogi elusennau ledled y Deyrnas Unedig ers 60 mlynedd. O grwpiau cymunedol bychain i sefydliadau cenedlaethol mawrion, nod yr Ymddiriedolwyr yw cefnogi mudiadau sydd â ffyrdd effeithiol o gynorthwyo'r rheini sydd â'r angen mwyaf.

**Mae Garfield Weston Foundation wedi cynhyrchu ei ganllawiau yn Gymraeg i fod mor hygyrch â phosib i bob mudiad. Serch hynny, sylwch mai dim ond ceisiadau yn Saesneg y gallwn eu derbyn.**

# Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Gwerthfawrogwn yr amser a'r ymdrech y mae codi arian yn ei gymryd ac anelwn at fod mor glir â phosib ynglŷn â'r hyn y mae'r Sefydliad yn ei ariannu a'r hyn nad yw'n ei ariannu, sut i ymgeisio am grant a pha mor hir yw'r broses fel arfer.

Rhennir y canllawiau hyn yn dair adran.

## Pwy rydym yn eu cefnogi

Mae'r Sefydliad yn cefnogi elusennau cofrestredig yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithio o fewn y Deyrnas Unedig yn y meysydd canlynol: Lles, Ieuenctid, Cymuned, y Celfyddydau, Ffydd, yr Amgylchedd, Addysg, Iechyd ac Amgueddfeydd a Threftadaeth.

## Beth rydym yn ei ariannu


Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau ar gyfer gwariant cyfalaf a gwariant ar weithgareddau, ond mae yna rai pethau nad ydym yn eu hariannu.

## Y broses ymgeisio

I gadw pethau'n syml, un cam sydd i'r broses ymgeisio sydd fel arfer yn cymryd tua phedwar mis o gyflwyno'ch cais i gael gwybod penderfyniad. Bydd darllen ein canllawiau yn ofalus a chynnwys yr holl wybodaeth y gofynnwn amdani yn sicrhau bod y broses mor gyflym â phosib i chi.

*Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'n rhaglen Grantiau Rheolaidd sy'n agored drwy gydol y flwyddyn i geisiadau am lai na £100,000.*

*Os hoffech ymgeisio am Grant Mawr (h.y. £100,000 neu fwy), anfonwch grynodeb at ein Cyfarwyddwr drwy gdarocha@garfieldweston.org a gallwn gynnig arweiniad penodol i roi gwybod a allech fod yn gymwys a beth allai'r camau nesaf fod. Os ydych yn ymgeisio am £100,000 neu fwy, sylwch ein bod fel arfer yn disgwyl i'ch prosiect a'ch incwm blynyddol cyffredinol fod dros £1 miliwn.*



Garfield Weston FOUNDATION


Ynglŷn â Garfield Weston Foundation

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Pwy rydym yn eu cefnogi

Beth rydym yn ei ariannu

Beth nad ydym yn ei ariannu

Y broses ymgeisio

Gair i gall am gais gwych

Ysgrifennu'ch cais

Sut i gyflwyno'ch cais

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Siarter Weston


www.garfieldweston.org

## Pwy rydym yn eu cefnogi

Mae'r Sefydliad yn derbyn ceisiadau gan fudiadau sy'n gweithio yn y meysydd canlynol: **Lles**, **Ieuenctid**, **Cymuned**, **y Celfyddydau**, **Ffydd**, **yr Amgylchedd**, **Addysg**, **Iechyd ac Amgueddfeydd a Threftadaeth.** Gan fod yr Ymddiriedolwyr yn hyblyg ac yn awyddus i ariannu'r prosiectau sy'n eu hargyhoeddi fwyaf nid oes gennym darged o ran gwariant fesul categori. Peidiwch â phoeni os gellid disgrifio'ch elusen mewn mwy nag un categori gan na fydd hyn yn effeithio o gwbl ar y tebygolrwydd o ariannu'ch prosiect.

Nid oes angen i chi fod wedi ymgeisio am grant gan y Sefydliad yn y gorffennol, na chael grant ganddo, ac nid oes angen i chi adnabod neb na chael eich 'gwahodd' i ymgeisio – cyn belled nad oes gennych grant gennym ar hyn o bryd nac wedi ymgeisio i ni yn y flwyddyn ddiwethaf, rydych yn gymwys i ymgeisio os ydych yn un o'r canlynol:

- elusennau cofrestredig yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithio o fewn y DU;
- Sefydliadau Corfforedig Elusennol;
- sefydliadau addysg (gan gynnwys ysgolion a phrifysgolion);
- eglwysi;
- Cymdeithasau Tai; neu
- amgueddfeydd ac orielau

## Beth rydym yn ei ariannu

Wrth benderfynu beth i ymgeisio amdano argymhellwn yn gryf i chi ymgeisio am beth bynnag yw'ch blaenoriaeth fwyaf a'ch angen mwyaf – gallai hyn fod mewn un o dri maes: Cyfalaf, Refeniw (a elwir 'costau craidd' yn aml) neu waith Prosiect.

### Cyfalaf

Wrth sôn am Gyfalaf rydym yn golygu brics a mortar neu 'stwff' diriaethol h.y. prosiect adeiladu, atgyweirio, cyfarpar ayyb – sylwch fod grant yn annhebygol o fod yn fwy na thua 10% o gyfanswm cost prosiect Cyfalaf.

Os ydych yn ymgeisio am grant Cyfalaf, rhowch wybod i ni sut y bydd hyn yn effeithio ar gostau gweithredu rheolaidd eich mudiad – er enghraifft, a fydd adeilad mwy yn costio mwy i'w redeg (ac os felly rhowch wybod i ni sut y byddwch yn cynnal hyn) neu a fydd modd i chi arbed arian wedi hyn?

### Refeniw/Costau Craidd

Rhoddir y grantiau hyn tuag at gostau cyffredinol yr hyn y mae'ch mudiad yn ei wneud – ei weithgaredd. Weithiau cyfeirir at grantiau refeniw fel 'costau craidd' ac maent fel arfer yn incwm digyfyngiad y gellir ei ddefnyddio ar gyfer pa bynnag gostau a threuliau cyffredinol sydd gennych ar gyfer gweithgaredd eich elusen – gall y rhain gynnwys pethau fel cyflogau cyffredinol (ond nid rôl neu swydd benodol), rhent ayyb. Fel rheol, mae grantiau refeniw/digyfyngiad yn annhebygol o fod yn fwy na thua 10-20% o gyfanswm incwm blynyddol eich mudiad.

### Costau Prosiect

Os oes gennych brosiect neu weithgaredd penodol iawn y mae arnoch angen cymorth ar ei gyfer yna gallwch ei amlinellu yn eich cynnig – dylech gynnwys yr holl gostau sydd ynghlwm wrth gynnal y prosiect, gan gynnwys costau staff a chanran resymol o orbenion os yw'n berthnasol.

Argymhellwn i chi fod wedi canfod o leiaf hanner yr arian rydych ei angen cyn ymgeisio i'r Sefydliad.

Garfield Weston
FOUNDATION


- Ynglŷn â Garfield Weston Foundation
- Ynglŷn â'r canllawiau hyn
- Pwy rydym yn eu cefnogi
- Beth rydym yn ei ariannu
- Beth nad ydym yn ei ariannu
- Y broses ymgeisio
  - Gair i gall am gais gwych
  - Ysgrifennu'ch cais
  - Sut i gyflwyno'ch cais
  - Beth fydd yn digwydd nesaf?
- Siarter Weston


# Beth nad ydym yn ei ariannu


Ni allwn gefnogi:

- unigolion;
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol;
- mentrau cymdeithasol sydd heb gofrestru â Chomisiwn Elusennau'r DU;
- cymdeithasau chwaraeon nad ydynt yn elusennau cofrestredig;
- gwaith nad yw'n darparu budd uniongyrchol yn y DU, hyd yn oed os yw'r mudiad yn elusen gofrestredig o fewn Prydain;
- elusennau lles anifeiliaid;
- elusennau sy'n gwario'r mwyafrif o'u hincwm y tu allan i'r DU; ac
- awdurdodau lleol a chynghorau.

Mae mudiadau sydd â chronfeydd rhydd wrth gefn (asedau cyfredol net a buddsoddiadau) sy'n fwy na 12 mis o'u gwariant yn annhebygol o gael grant oni allant gyflwyno dadl sy'n argyhoeddi'n eithriadol o dda eu bod mewn angen ariannol.

Mae yna rai pethau nad ydym yn eu hariannu:

- digwyddiadau untro megis gŵyl neu gala, hyd yn oed os ydynt at ddibenion codi arian;
- nawdd;
- swyddi unigol – tra bydd y Sefydliad yn gwneud cyfraniad cyffredinol at gyflogau drwy ei grantiau prosiect neu refeniw nid ydym yn tueddu i roi grantiau ar gyfer swydd benodol nag aelod penodol o staff yn eich mudiad;
- astudiaethau dichonoldeb;
- gweithgaredd sy'n digwydd dramor, gan gynnwys teithiau tramor;
- costau sefydlu, mudiadau nad oes ganddynt eto brofiad o ddarparu gwasanaethau yn llwyddiannus, neu nad ydynt eto wedi cynhyrchu cyfrifon;
- gweithgaredd ymgyrchu, lobïo a chodi ymwybyddiaeth; ac
- apeliadau gwaddol.



Garfield Weston
FOUNDATION


Ynglŷn â Garfield Weston Foundation
Ynglŷn â'r canllawiau hyn
Pwy rydym yn eu cefnogi
Beth rydym yn ei ariannu
Beth nad ydym yn ei ariannu
Y broses ymgeisio
Gair i gall am gais gwych
Ysgrifennu'ch cais
Sut i gyflwyno'ch cais
Beth fydd yn digwydd nesaf?
Siarter Weston


www.garfieldweston.org

## Y broses ymgeisio

Mae'r adran hon yn amlinellu popeth y mae angen i ni ei weld mewn cais am gyllid, sut i gyflwyno'ch cais a beth fydd yn digwydd nesaf. Darllenwch yr adran hon yn drylwyr cyn cyflwyno cais.

### *Gair i gall am gais gwych!*

- Adroddwch eich stori mewn ffordd syml gan gynnwys y cyd-destun cyfan, hyd yn oed os ydych wedi ymgeisio i ni o'r blaen, gan y gallai pethau fod wedi newid ers y tro diwethaf i ni fod mewn cysylltiad – wrth wneud hyn gallwch fod yn siwr eich bod wedi egluro popeth y mae angen i ni ei wybod.
- Peidiwch â defnyddio jargon nac acronymau.
- Gofynnwch i rywun nad yw'n gyfarwydd â'ch mudiad i ddarllen eich cynnig – a yw'n gwneud synnwyr? A allant gofio'r pwyntiau allweddol?
- Cadwch e'n syml!
- Sicrhewch fod eich cyllidebau yn gywir, bod popeth wedi'i gyfrifo'n gywir, a nodwch yn glir beth yw'ch diffyg ariannol.
- Cofiwch gynnwys cynllun cyllido clir – ni allwn fod eich unig gyllidwr felly rhowch wybod i ni faint rydych wedi'i godi hyd yma ac o ba ffynonellau a hefyd amlinellwch i bwy arall rydych yn ymgeisio am y diffyg sy'n weddill.

## Ysgrifennu'ch cais

Nid oes gennym ffurflen gais gaeth gan ein bod yn awyddus i roi'r lle i chi fod yn chi'ch hun fel y gallwn eich deall yn well. Ceisiwch fod mor gryno â phosib a pheidiwch â mynd dros 10 ochr A4 – cofiwch gynnwys yr HOLL wybodaeth y gofynnwn amdani yn y ddogfen sengl hon.

Os oes gennym gwestiynau ychwanegol, rhown wybod i chi. Cyflwynwch eich cynnig ar ffurf Word neu PDF, gan gynnwys y wybodaeth ganlynol:

### Crynodeb Gweithredol

Ar ddechrau'ch cynnig rhowch grynodeb o'r hyn y mae'ch mudiad yn ei wneud, yr angen y mae'n ei ateb, ble rydych yn gweithio, y gwahaniaeth mae'n ei wneud (effaith), eich llwyddiant blaenorol a'r hyn rydych yn gofyn i'r Sefydliad amdano. Dyma'r cyd-destun hanfodol y mae llawer o fudiadau yn anghofio ei gyfleu! Cofiwch am y pum gair holi – pwy, beth, pam, ble a phryd.

### Y Prif Gynnig

Angen a Chyflawni

- Beth yw'r angen y mae'ch elusen yn ei ateb? Pam mae'n bwysig?
- Sut mae'ch gwaith yn ateb yr angen hwn h.y. beth yn union rydych yn ei wneud neu ba wasanaethau rydych yn eu darparu?

Effaith

- Pa wahaniaeth y mae gwaith eich mudiad yn ei wneud?
- Beth yw'ch allbynnau? Er enghraifft, pwy sy'n cael budd o'ch gwaith ac ym mha ffordd?
- Sut ydych yn mesur eich llwyddiant? Beth yw'r canlyniadau a'r effaith?

Garfield Weston
FOUNDATION


Ynglŷn â Garfield Weston Foundation

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Pwy rydym yn eu cefnogi

Beth rydym yn ei ariannu

Beth nad ydym yn ei ariannu

Y broses ymgeisio

Gair i gall am gais gwych

Ysgrifennu'ch cais

Sut i gyflwyno'ch cais

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Siarter Weston


## Astudiaethau Achos a Lluniau

Gall un neu ddwy astudiaeth achos a/neu ddyfyniad gan bobl sydd wedi cael budd o'ch gwaith roi bywyd i'r cais. Beth am gynnwys lluniau sydd wedi'u dethol yn ofalus i helpu i gyfleu'ch prosiect, yr hyn y mae'ch elusen yn ei wneud a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud. Tra'r ydym yn disgwyl gweld cynlluniau cadarn peidiwch â theimlo bod rhaid i chi fod yn rhy glinigol – os yw gwaith eich elusen yn cael effaith emosiynol neu'n creu llawenydd yna gallwch roi gwybod i ni am hynny hefyd. Gall cydbwysedd rhwng y 'pen' a'r 'galon' wneud cais cryf.

## Arwain a Rheoli

Rydym yn deall bod pobl hynod o alluog ac arweinyddiaeth ysbrydoledig yn gwneud byd o wahaniaeth felly cofiwch sicrhau'ch bod yn egluro digon am y bobl sy'n arwain ac yn cyflawni'ch gwaith er mwyn i'n Hymddiriedolwyr ymddiried yn eich mudiad a'ch cynlluniau. Dylech gynnwys paragraff ynglŷn â'r Prif Swyddog Gweithredol, yr uwch dîm a'r Ymddiriedolwyr a'u profiad o gyflawni'ch gwaith.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Os oes gennych bartneriaethau neu os ydych yn cydweithio â mudiadau eraill rhowch wybod i ni am hyn. Tra mae ein Hymddiriedolwyr yn awyddus i beidio â chefnogi mudiadau sy'n dyblygu gwaith eraill, neu'n gorgyffwrdd â gwaith eraill, maent yn gwerthfawrogi gwaith ar y cyd pan fo hynny'n darparu gwasanaeth gwell, yn gwella effeithlonrwydd a/neu'n gwella canlyniadau.

## Cynllun Cyllido

Gwerthfawrogwn fod arian yn her i elusennau felly mae'r adran hon yn hynod o bwysig gan fod angen i ni ddeall:


- bod gennych gynllun cadarn i ariannu'ch gwaith – o ran pwy sydd eisoes yn eich cefnogi a'r rhestr o ddarpar ffynonellau rydych yn ymgeisio iddynt;
- o ble y daw'ch arian yn gyffredinol;
- pa mor ddibynnol yr ydych ar rai ffynonellau ariannol penodol;
- pa mor gynaliadwy y mae'ch sefyllfa ariannol yn debygol o fod; a
- faint mae'ch cymuned leol neu'ch buddiolwyr yn cefnogi'ch gwaith.

Mae ein Hymddiriedolwyr yn chwilio am sylfaen gyllido amrywiol i sicrhau bod mudiadau yn ariannol gynaliadwy. Ond byddwch yn onest! Os oes rheswm pam y daw'ch arian presennol o nifer bach o ffynonellau, rhowch wybod y rheswm hwnnw i ni a beth rydych yn bwriadu ei wneud i newid hyn at y dyfodol.

## Sut i amlinellu'ch cynllun cyllido

Yn ein profiad ni mae elusennau'n aml yn ei chael yn anodd crynhoi eu cynllun cyllido a'u cyllideb. Ar y dudalen nesaf darparwn enghreifftiau y gallech eu defnyddio fel canllaw. Dylai'ch cyllideb ddangos faint mae gwaith eich mudiad yn ei gostio – eich gwariant sydd wedi'i gynllunio. Bydd eich cynllun cyllido (incwm a ragwelir) yn dangos i ni faint o arian sydd wedi'i sicrhau hyd yma ac o ba ffynonellau, faint sydd ar ôl i'w godi (y diffyg) ac i ble arall rydych yn ymgeisio i gau'r bwlch hwn. Bydd hyn yn helpu i'n sicrhau bod gennych gynllun cadarn i lenwi'ch diffyg. Bydd cyllideb a chynllun clir yn cyflymu ein proses benderfynu gan na fydd angen i ni gysylltu â chi am eglurhad pellach.

www.garfieldweston.org



Garfield Weston
FOUNDATION


Ynglŷn â Garfield Weston Foundation

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Pwy rydym yn eu cefnogi

Beth rydym yn ei ariannu

Beth nad ydym yn ei ariannu

Y broses ymgeisio

Gair i gall am gais gwych

Ysgrifennu'ch cais

Sut i gyflwyno'ch cais

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Siarter Weston


www.garfieldweston.org

## Incwm a Ragwelir – Cynllun Cyllido

Mae angen i ni weld incwm disgwyliedig eich mudiad. Dylech gynnwys unrhyw incwm sydd wedi'i gadarnhau a cheisiadau yr ydych yn aros am eu canlyniad.

| Ffynhonnell yr incwm | Incwm a Ragwelir/a Dargedir | Incwm sydd wedi'i Gadarnhau hyd yma | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Contractau/cyllid statudol | £200,000 | £100,000 | Y cyngor lleol heb gadarnhau adnewyddiad y cyllid eto |
| Incwm arall a enillir | £20,000 | £5,000 | Gwerthiant o fenter gymdeithasol |
| Ymddiriedolaethau a Sefydliadau | £150,000 | £75,000 | Wedi sicrhau £50,000 gan Ymddiriedolaeth genedlaethol a enwir, pum addewid o £5,000 gan Ymddiriedolaethau lleol a enwir. Aros am ganlyniad ceisiadau i chwe Sefydliad arall – rhowch enwau |
| Rhoddion corfforaethol | £20,000 | £10,000 | Wedi targedu cwmnïau gan gynnwys A, B ac C |
| Rhoddion gan unigolion | £15,000 | £5,000 | Ymddiriedolwyr wrthi'n cysylltu â ffrindiau a chydweithwyr |
| Cymuned/ digwyddiadau | £20,000 | £10,000 | Arwerthiant cist car a digwyddiadau eraill ar y gweill |
| Cronfeydd wrth gefn a ddygir ymlaen | £75,000 | £75,000 | |
| **Is-gyfanswm yr Incwm sydd wedi'i Gadarnhau** | | **£280,000** | |
| **Diffyg** | | **£220,000** | |
| **CYFANSWM** | **£500,000** | | |

## Gwariant sydd wedi'i Gynllunio

Rhowch fanylion cyfanswm cyllideb gwariant eich mudiad ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Gall fod yn syniad da defnyddio'r un penawdau â'r rheini sydd yn eich cyfrifon a archwiliwyd, er enghraifft:

| Eitem y Gwariant | Swm | Nodiadau |
|---|---|---|
| Cyflogau | £325,000 | 3 staff llawn amser a 4 rhan amser |
| Hyfforddiant | £25,000 | |
| Costau Rhaglen | £80,000 | Gan gynnwys deunyddiau |
| Costau swyddfa | £30,000 | |
| Atgyweirio a chynnal a chadw | £5,000 | |
| Rhent | £25,000 | |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | £5,000 | |
| Costau Llywodraethu | £5,000 | |
| **CYFANSWM** | **£500,000** | |

Garfield Weston
FOUNDATION


Ynglŷn â Garfield Weston Foundation

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Pwy rydym yn eu cefnogi

Beth rydym yn ei ariannu

Beth nad ydym yn ei ariannu

Y broses ymgeisio

Gair i gall am gais gwych

Ysgrifennu'ch cais

Sut i gyflwyno'ch cais

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Siarter Weston


### Cynllun Cyllido Prosiect Penodol

Os ydych yn ymgeisio am brosiect Cyfalaf neu weithgaredd penodol, mae hefyd angen i chi ddarparu cyllideb a chynllun cyllido ar gyfer cyfanswm cost y prosiect penodol hwn.

### Cynllun Wrth Gefn

Gobeithio, wrth gwrs, y bydd eich gwaith codi arian yn llwyddiannus ond rydym yn ymwybodol bod codi arian yn waith caled, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Beth fydd yn digwydd os na ellir codi digon o arian ar gyfer cost lawn y prosiect? A fydd y gwaith yn mynd yn ei flaen ar raddfa lai? A fydd eich mudiad yn cyflwyno'r gwaith yn raddol? Os oes gennych fenthyciad, beth yw'r telerau a'r cynllun ad-dalu ar ei gyfer? A oes gennych arian wrth gefn y gellir ei ryddhau? Dyma gyfle i sicrhau bod ein Hymddiriedolwyr yn gallu gweld eich bod wedi ystyried opsiynau amgen.

### Cyfrifon

Gyda'ch cynnig, bydd angen i chi gyflwyno copi o'ch cyfrifon diweddaraf i gael eu harchwilio. Rhowch wybod i ni os oes unrhyw beth anarferol yn eich cyfrifon sydd angen eu hegluro – er enghraifft, unrhyw eitemau eithriadol a allai fod wedi amharu ar eich cyfrifon (megis rhodd annisgwyl mewn ewyllys, uno â mudiad arall neu gost untro annisgwyl). Os nad yw'n ofynnol i'ch mudiad greu cyfrifon i gael eu harchwilio, anfonwch gopi atom o'ch cyfrifon rheoli diweddaraf a'ch cyfriflen banc ddiweddaraf.

## Sut i gyflwyno'ch cais

Nawr eich bod wedi ysgrifennu'ch cais, ewch ar ein gwefan i gael gwybod sut i'w gyflwyno i ni.
**www.garfieldweston.org/apply-to-us**

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

- Mae ein rhaglen Grantiau Rheolaidd (h.y. ceisiadau am lai na £100,000) yn agored i geisiadau drwy gydol y flwyddyn ac mae ein Hymddiriedolwyr yn mynd ati'n rheolaidd i'w hadolygu'n ofalus.
- Gan fod ein Hymddiriedolwyr yn adolygu ceisiadau yn rheolaidd ac nad oes dyddiad cau i chi gadw ato, gallwch ymgeisio pryd bynnag sy'n addas i chi.
- Rydym yn adolygu ceisiadau yn y drefn rydym yn eu cael er mwyn bod yn deg i bawb.
- Mae'n cymryd tua phedwar mis o gyflwyno cais i gael gwybod penderfyniad gan Ymddiriedolwyr y Sefydliad.

Unwaith rydym wedi cydnabod ein bod wedi cael eich cais efallai na fyddwch yn clywed gennym am sawl mis – peidiwch â phoeni, y cwbl y mae hyn yn ei olygu yw bod gennym yr holl wybodaeth y mae arnom ei hangen. **Nid** oes angen i chi gysylltu â'r Sefydliad unwaith rydych wedi cael cydnabyddiaeth gennym – os ydym yn teimlo bod unrhyw beth ar goll o'ch cais byddwn yn cysylltu i ofyn cwestiynau penodol.

Yn yr un modd, os oes angen cyfarfod bydd un o'n tîm Grantiau yn cysylltu i drefnu ymweliad neu gyfarfod â chi a rhown gymaint o rybudd â phosib i chi.

P'un ai a yw'ch cais yn llwyddo ai peidio, sylwch na allwn dderbyn cais arall gennych hyd nes y mae o leiaf 12 mis wedi bod ers dyddiad ein llythyr yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad eich cais diwethaf.

Diolch am eich diddordeb yn sefydliad Garfield Weston Foundation – dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch gwaith codi arian a gwaith eich mudiad.

**Mae Garfield Weston Foundation wedi cynhyrchu ei ganllawiau yn Gymraeg i fod mor hygyrch â phosib i bob mudiad. Serch hynny, sylwch mai dim ond ceisiadau yn Saesneg y gallwn eu derbyn.**

Garfield Weston
FOUNDATION


Ynglŷn â Garfield Weston Foundation

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Pwy rydym yn eu cefnogi

Beth rydym yn ei ariannu

Beth nad ydym yn ei ariannu

Y broses ymgeisio

Gair i gall am gais gwych

Ysgrifennu'ch cais

Sut i gyflwyno'ch cais

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Siarter Weston


www.garfieldweston.org

# Siarter Weston

Gwerthfawrogwn nad yw codi arian yn hawdd – yn wir mae staff y Sefydliad a llawer o'r Ymddiriedolwyr hefyd yn ymwneud â chodi arian dros elusennau – dyna pam rydym wedi creu "Siarter Weston" sy'n nodi ein hymrwymiad i chi.

Mae ein Hymddiriedolwyr yn ymfalchïo yn y gofal a gymerir wrth ystyried ceisiadau ac roeddem yn meddwl yr hoffech wybod yr egwyddorion sy'n arwain ein gwaith fel y gallwch, ni waeth beth fo'r canlyniad, fod yn hyderus yn ein ffordd o weithio.

Diolch am gymryd yr amser i siarad â ni am eich gwaith.

## Ein hymrwymiad i chi

1 Cydnabyddir pob cais a geir fel eich bod yn gwybod ei fod wedi cyrraedd yn ddiogel.

2 Mae pob cais a ystyrir yn cael hysbysiad o'r canlyniad.

3 Mae pob cais cymwys yn cael ei ystyried gan o leiaf un o Ymddiriedolwyr y Sefydliad.

4 Rhoddir sylw gofalus i'ch cais ond sylwch nad yw'n bosib gwarantu y bydd arian ar gael – gwyddem eich bod yn deall bod yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr weithiau wrthod prosiectau da gan nad yw hi'n bosib cefnogi popeth.

5 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn nodi unrhyw swm rydych yn gofyn amdano yn eich cais, ond nid ydynt yn gweithio ar sail "popeth neu ddim byd" felly efallai y byddant yn darparu cymorth ar lefel wahanol i'r hyn y gofynnwyd amdano.

6 Rydym yn parchu'ch amser a'ch adnoddau – gallwch fod yn siwr na fyddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ond pan gredwn ei bod yn ffurfio rhan bwysig o'ch cynnig, neu os ydym am gael eglurhad o rywbeth y credwn sy'n berthnasol i ddealltwriaeth yr Ymddiriedolwyr o'ch prosiect neu'ch mudiad – byddwn yn sicrhau bod gennym yr holl wybodaeth angenrheidiol fel y gallwch fod yn hyderus eich bod wedi gwneud popeth y gallwch chi i ddadlau'ch achos dros gefnogaeth.

7 Rheolir gwariant y Sefydliad yn ofalus i sicrhau y bydd eich prosiect, ym mha bynnag gyfarfod neu ba bynnag adeg o'r flwyddyn y mae'n cael ei ystyried, yn cael yr un cyfle ag unrhyw adeg arall o'r flwyddyn.

8 Onid ydym yn cysylltu â chi i ofyn am gyfarfod neu ymweliad, ni fydd angen i chi ddod i un o Gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr eich hun gan fod unrhyw gyfarfodydd neu sgyrsiau angenrheidiol i ni ddeall eich cynnig yn llawn yn cael eu cwblhau ymlaen llaw.

9 Wrth benderfynu dyfarnu cyllid, yn gyffredinol caiff sieciau eu rhyddhau ar unwaith i gynorthwyo llif arian parod a chynlluniau'ch elusen. Os gwneir addewid rydym yn caniatáu hyd at ddwy flynedd i chi sicrhau'r arian ychwanegol angenrheidiol.

10 Mae'r canllawiau adrodd mor glir a syml â phosib er mwyn sicrhau y gallwn gael gwybod y diweddaraf am eich gwaith ond rhoi cyn lleied o faich gweinyddol â phosib ar eich elusen.



www.wolfdesignltd.co.uk